



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Glan Cleddau
Ger Portfield
Hwlfordd
Sir Benfro
SA61 1BS**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/03/2016

Cyd-destun

Mae Ysgol Gymraeg Glan Cleddau wedi ei lleoli ymhen uchaf tref Hwlfordd, yn rhan ddeheuol Sir Benfro. Mae 259 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 41 o ddisgyblion meithrin rhan amser. Mae ganddi 10 dosbarth gyda 3 dosbarth oedran cymysg.

Mae tua 5% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 17% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes unrhyw blentyn â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ychydig o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith gartref. Mae tua 3% o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2010. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn Ebrill 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Glan Cleddau yn 2015-2016 yw £3,466. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Benfro yw £6,208 a'r lleiafswm yw £3,454. Mae Ysgol Glan Cleddau yn y 60fed safle o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- medrau llythrennedd a rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn dda
- iaith lafar disgyblion yn dda yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen ac yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2
- ymddygiad bron bob un disgybl yn dda iawn
- rhan fwyaf yr athrawon yn cynnal gwersi effeithiol a diddorol sy'n cymhell disgyblion i ddysgu
- perthynas dda rhwng staff a disgyblion ymhob dosbarth yn creu ethos cyfeillgar a gofalgarg.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion
- y corff llywodraethwyr yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau
- perthynas werthfawr rhwng yr ysgol a'r cartref yn sicrhau bod rhieni yn cymryd rôl weithredol yn addysg eu plant

Argymhellion

- A1 Gwella gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain
- A2 Herio disgyblion mwy abl yn gyson
- A3 Sicrhau cysondeb yn yr adborth ysgrifenedig i ddisgyblion er mwyn cynnig arweiniad clir ar gyfer gwelliant
- A4 Sicrhau bod y blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn y cynllun datblygu ysgol yn ddigon manwl i hwyluso mesur effaith a nodi cyfrifoldebau'n glir

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae medrau meddwl ac annibyniaeth llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Er mai ychydig iawn o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg, mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn siarad yn hyderus am eu gwaith. Maent yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau brawddegau yn gywir mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn ddeallus ac yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau athrawon yn y Gymraeg a Saesneg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus sy'n darllen yn gywir gyda mynegiant priodol. Mae llawer yn trafod agweddau llyfrau yn hyderus er mwyn dangos dealltwriaeth dda o ddigwyddiadau a'u hoff gymeriadau. Mae medrau llithr ddarllen disgyblion mwy abl yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn ystyrlon yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio eu huwch fedrau darllen yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio ar y we i ddod o hyd i wledydd y cynghreiriaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu brawddegau synhwyrol i wahanol bwrpasau, gan sillafu geiriau yn unol â'u hoed a'u gallu. Mae disgyblion mwy abl yn amrywio brawddegau yn llwyddiannus i greu effaith. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gymwys mewn ystod addas o ffurfiau ysgrifennu ac yn defnyddio'u medrau yn effeithiol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad am ymweliad i Faenor Scolton. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol, gan baragraffu ac atalnodi'n gywir yn y Gymraeg a Saesneg. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio ystod eang o eirfa yn llwyddiannus i gyfoethogi'u gwaith, gan gynnwys ansoddeiriau, idiomau a chymariaethau. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n effeithiol i wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson o daith fel enciliwr yn y Gymraeg ac wrth lunio deialog rhwng protestwyr yng Nghapel Celyn yn Saesneg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae'r rhan fwyaf yn trefnu rhifau yn effeithiol hyd at 200 ac yn adnabod odrifau ac eilrifau yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio unedau mesur yn gywir. Maent yn defnyddio'u medrau rhifedd yn addas ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gasglu data ar hoff archfarchnadoedd.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn effeithiol i ddatrys problemau rhif. Maent yn defnyddio fformiwla yn llwyddiannus i gyfrifo onglau mewnol ac allanol. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwysu eu medrau rhifedd yn dda wrth weithio ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddadansoddi data yn seiliedig ar farwolaethau yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig ac ar y deilliant uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi amrywio yn gyffredinol rhwng y 50% uwch a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Er hyn, mae perfformiad mewn datblygiad mathemategol ar y deilliant uwch yn dangos tuedd ar i lawr yn ddiweddar.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn gyffredinol yn y 50% uwch yn y Gymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi amrywio dros yr un cyfnod ac nid oes patrwm amlwg. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch na'r disgwyl ymhob pwnc craidd yn is na'r canolrif dros y pedair blynedd diwethaf.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn isel, felly nid yw cymariaethau o'u perfformiad yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy.

Lles: Da

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd mae bron pob disgybl yn dangos parch a chwarteisi gwirioneddol tuag at ei gilydd, staff ac oedolion. Mae ymddygiad bron bob un o'r disgyblion yn dda iawn mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth os ydynt yn gofidio.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ystod dda o fedrau cymdeithasol a bywyd. Mae disgyblion hŷn yn awyddus i gymryd cyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft, maent yn gofalu am ddisgyblion iau'r ysgol yn ystod amseroedd egwyl a chinio.

Mae bron bob un disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta a byw'n iach ac yn mwynhau ystod eang o weithgareddau corfforol amrywiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth effeithiol o bwysigrwydd gofalu ar ôl eu hamgylchedd, er enghraifft drwy dyfu planhigion a llysiau yng ngardd yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi. Maent yn awyddus i ddysgu ac yn arddangos dyfalbarhad yn eu gwaith. Er hyn, nid yw medrau llawer o ddisgyblion i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wedi datblygu'n llawn.

Mae'r cyngor ysgol yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r disgyblion wedi adnabod yr angen i wella cyflenwad o lyfrau Cymraeg. O ganlyniad, mae'r cyngor wedi archebu llyfrau newydd ac mae hyn wedi llwyddo i annog mwy o ddisgyblion i ddarllen yn y Gymraeg.

Mae presenoldeb yr ysgol yn amrywio o'r 50% uwch a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg dros gyfnod o bedair blynedd. Mae'r ganran o 95.8% eleni yn dangos cynnydd parhaus. Mae bron bob un disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion ac yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, Y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae'r athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau diddorol sydd yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith priodol sydd yn bodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Ar y cyfan, maent yn nodi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd a llythrennedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r gweithgareddau mentergarwch sydd yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn hyrwyddo adnabyddiaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth a'u hardal leol yn llwyddiannus. Mae ymweliadau gan feirdd ac artistiaid lleol yn cyfoethogi'r gwaith hwn yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn atgyfnerthu profiadau dysgu disgyblion yn fuddiol drwy drefnu ymweliadau addysgol a gweithgareddau ymarferol gwerthfawr. Darperir ystod eang o glybiau amrywiol, gan gynnwys clybiau ffitrwydd, chwaraeon a gwyddbwyll.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad cynaliadwy y disgyblion yn effeithiol, drwy weithgareddau ymarferol, sy'n cynnwys ailgylchu, lleihau defnydd o ynni a gofalu am ardd yr ysgol. O ganlyniad, mae ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd gofalu am y byd yn dda. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu dinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft drwy wythnosau rhyngwladol a gweithgareddau diwylliannol ac elusennol. Mae hyn yn cryfhau dealltwriaeth disgyblion o grefyddau a thraddodiadau'r byd.

Addysgu: Da

Yn gyffredinol, mae rhan fwyaf yr athrawon yn cynllunio gwersi effeithiol a diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae cyflwyniadau a chyfarwyddiadau'r athrawon yn glir, ac mae strwythurau cadarn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu ymateb yn briodol i'w tasgau. Mae gan athrawon wybodaeth bynciau dda, ac maent yn cysylltu eu gwersi'n effeithiol â dysgu blaenorol.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n agos er mwyn darparu cefnogaeth werthfawr i unigolion a grwpiau penodol. Mae'r perthynas dda rhwng staff a disgyblion yn creu ethos cyfeillgar a gofalgarn. Mae bron bob un o'r athrawon yn fodolau iaith dda. Mae hyn yn cael effaith gadarn ar gywirdeb llafaredd y rhan fwyaf o'r disgyblion. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio cwestiynau agored yn effeithiol, sy'n cefnogi'r dysgu'n dda. Mae athrawon i gyd yn paratoi gweithgareddau addas ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Er hyn, nid yw cynllunio bob tro'n datblygu medrau dysgu annibynnol yn ddigonol nac yn herio disgyblion mwy abl yn ddigon effeithiol. Ar adegau, mae gordefnydd o daflenni gwaith yn

llesteirio cynnydd disgyblion mewn ychydig o ddsbarthiadau. Mae athrawon yn rhannu bwriadau dysgu'r gwersi yn gyson ond nid yw'r meini prawf llwyddiant bob tro yn cyd-fynd â'r dasg. Mae'r holl athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn drylwyr. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn rhoi sylwadau adeiladol i ddisgyblion ar sut i wella'u hymdrechion, gan ddarparu cyfleoedd addas iddynt ymateb. Er hyn, nid yw'r arfer yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'r data'n ofalus i fonitro cynnydd y disgyblion ac i ddarparu rhaglenni addysgol ychwanegol yn ôl yr angen. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau gwerthfawr ar gynnydd eu plant, ynghyd â thargedau addas er mwyn gwella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a theuluol ei naws, lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch tuag at ei gilydd. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ymweliadau a gweithgareddau'r cwricwlwm. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrion mewn gwasanaethau i ystyried gwerthoedd moesol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae enghreifftiau da yn cynnwys annog disgyblion i ymweld â'r siop ffrwythau bob dydd a dewis bwydydd iach amser cinio. Mae'r ysgol yn hybu iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus drwy ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn effeithiol. Ategir hyn trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau tu fewn a thu allan i'r ysgol. Mae'r disgyblion yn cael cyfle cyfartal i ymuno yn yr ystod o gyfleoedd allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd a'r gwasanaeth ymddygiad yn ôl yr angen. Mae hyn yn cyfrannu'n bositif at iechyd a lles disgyblion. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar. Mae rhaglenni ymyrraeth pwrpasol yn ymateb i anghenion unigolion a grwpiau yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan flaenllaw wrth lunio targedau ar gyfer eu cynlluniau addysg unigol. Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni a'r disgyblion yn effeithiol yn yr adolygiadau rheolaidd o'r cynlluniau hyn. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus lle caiff pob plentyn a'u teuluoedd eu croesawu, eu parchu a'u cefnogi. Mae'r ysgol yn gynhwysol iawn ac mae cyfleoedd cyfartal effeithiol yn sicrhau bod gan bob disgybl fynediad llawn i'r holl weithgareddau. Mae polisiâu a strategaethau yn bodloni gofynion statudol ac yn cefnogi'r ethos cadarnhaol yn dda.

Mae arddangosfeydd ysgogol a deniadol o waith a llwyddiannau disgyblion yn creu amgylchedd dysgu diddorol ac yn cefnogi'r dysgu yn briodol. Mae cyflenwad da o adnoddau pwrpasol ar gael er mwyn cyfoethogi'r dysgu tu fewn i'r adeilad a thu allan, a gwneir defnydd priodol ohonynt. Enghraifft dda o hyn yw'r cyflenwad da o adnoddau i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau yn hyderus ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn addasu'r amgylchedd ffisegol yn llwyddiannus i ymateb i dwf yn nifer y disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol. Mae'r adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cadw a'u cynnal yn effeithiol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr yn gadarn. Mae arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau uchel o'r staff, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae gan yr holl staff swydd ddisgrifiadau sydd yn nodi cyfrifoldebau'n glir. Mae arweinwyr ac athrawon yn cyfrannu'n effeithiol drwy gymryd rhan weithredol yng ngweithdrefnau monitro'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Yn gyffredinol, mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau gwella. O ganlyniad, mae'r athrawon yn ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant.

Mae'r ysgol yn cyd-gysylltu blaenoriaethau'r ysgol a datblygiad proffesiynol y staff â thargedau rheoli perfformiad yn llwyddiannus. Mae'n ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae defnydd o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn datblygu'n effeithiol ac mae'r ysgol yn hybu lles a ffitrwydd disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethol yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae'r aelodau yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol iawn. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i ymgymryd â gweithgareddau monitro ac i drafod darpariaeth a safonau gydag arweinwyr a staff. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth sicr am gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol. Mae'r rhaglen anwytho ar gyfer llywodraethwyr newydd yn nodweddiadol gref yn yr ysgol. Trwy fentora llywodraethwyr newydd, maent yn sicrhau bod pob aelod yn cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd ac at y rhaglen hunanarfarnu.

Gwella ansawdd: Da

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn gadarn ac yn arwain yn glir at amlygu meysydd penodol i'w gwella yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae gan arweinwyr

ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hunanarfarnu. Rhoddir sylw da i farn staff, rhieni, llywodraethwyr a'r disgyblion fel rhan o'r broses. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a ddaw o holiaduron i rieni a disgyblion mewn modd buddiol iawn i ategu'r broses hunanarfarnu. Nodwedd gref o hyn yw'r ffordd mae'r ysgol mesur gwelliant drwy gymharu holiaduron o'r gorffennol â rhai cyfredol yn effeithiol. Mae'r adroddiadau monitro yn ddadansoddol ac arfarnol, ac yn nodi'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu'n briodol. Mae'r ysgol yn seilio'r hunanarfarniad ar dystiolaeth o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddiad manwl o ddata. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cyfrannu'n dda at yr adroddiad sy'n cynnig darlun cytbwys o'r ysgol.

Yn gyffredinol, mae cyswllt agos rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'n cynnwys strategaethau priodol ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro. Fodd bynnag, nid yw'r blaenoriaethau bob amser yn ddigon penodol na'r camau gweithredu a chyfrifoldebau'n ddigon clir. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i arfarnu cynnydd yn fanwl yn erbyn y dangosyddion llwyddiant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a phrofiadau dysgu disgyblion. Mae'r berthynas werthfawr rhwng yr ysgol a'r cartref yn sicrhau bod rhieni'n cymryd rôl weithredol yn addysg eu plant. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn cefnogi'r ysgol yn dda, trwy godi arian a phrynu adnoddau gwerthfawr. Er enghraifft, drwy gyfrannu at offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r ysgol, maent yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn dda. Caiff rhieni wybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a thargedau eu plant.

Mae'r berthynas effeithiol rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol allanol yn cefnogi'r staff i ddarparu ystod o raglenni gwerthfawr sy'n cefnogi disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda grŵp cyn-ysgol lleol i sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan yn y dosbarth meithrin. Mae staff y meithrin yn ymweld â'r rhieni a'r plant yn eu cartrefi er mwyn meithrin perthynas cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol. Mae hyn yn nodwedd gref o drefniadau trosglwyddo'r ysgol. Mae'r trefniadau pontio ar gyfer y clwstwr o ysgolion a'r ysgolion uwchradd yn dda. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion hŷn i baratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion cyfagos a'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn galluogi staff i gydweithio'n effeithiol i safoni gwaith disgyblion a sicrhau cywirdeb eu hasesiadau ac wrth baratoi adnoddau dysgu gwerthfawr.

Mae partneriaeth gadarn rhwng yr ysgol a'r gymuned leol, sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith gyda swyddogion y Parc Cenedlaethol ar ddatblygu'r ardaloedd allanol.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r pennaeth wedi sefydlu strwythur rheolaeth buddiol sy'n rhannu cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd y staff i wireddu'r nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol gyflenwad digonol o athrawon a chynorthwyr dosbarth i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd i gefnogi'r disgyblion yn llwyddiannus. Defnyddia'r athrawon eu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol i godi safonau.

Mae'r prosesau ar gyfer rheoli perfformiad y staff yn arwain at bennu targedau priodol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol a'u datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu, er enghraifft gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol o fewn rhwydweithiau dysgu, sy'n cyfrannu'n dda at gyfoethogi darpariaeth yr ysgol. Er enghraifft, mae'r arweinydd rhifedd yn cyfrannu i rwydwaith o ysgolion cynradd ac uwchradd i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r pennaeth, swyddog gweinyddol, a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli'r cyllid yn ofalus. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Defnyddir y Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6682383 - Ysgol Glan Cleddau

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	255
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	5.8
Grŵp PYD	1 (PYD<=8%)

Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	27	27	35	23
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	88.9	85.2	91.4	91.3
Chwarter meincnod	2	3	3	3
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	27	27	35	23
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	88.9	88.9	94.3	95.7
Chwarter meincnod	2	2	3	3
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	18.5	37.0	40.0	34.8
Chwarter meincnod	3	2	2	3
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	27	27	35	23
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	92.6	85.2	97.1	95.7
Chwarter meincnod	2	4	2	3
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	25.9	37.0	28.6	30.4
Chwarter meincnod	2	2	3	4
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	27	27	35	23
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	1	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	18.5	55.6	45.7	65.2
Chwarter meincnod	4	2	4	3

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6682383 - Ysgol Glan Cleddau

Nifer y disgyblion ar y gofrestr

255

Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd

5.8

Grŵp PYD

1 (PYD<=8%)

Cyfnod allweddol 2

	2012	2013	2014	2015
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	25	25	22	30
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	88.0	88.0	100.0	93.3
Chwarterl meincnod	2	3	1	3
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	25	25	22	30
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	92.0	92.0	100.0	100.0
Chwarterl meincnod	2	3	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	20.0	24.0	22.7	36.7
Chwarterl meincnod	4	4	4	4
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	25	25	22	30
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	88.0	96.0	100.0	96.7
Chwarterl meincnod	2	1	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	20.0	20.0	27.3	23.3
Chwarterl meincnod	3	3	3	4
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	25	25	22	30
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	88.0	96.0	100.0	93.3
Chwarterl meincnod	3	2	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	20.0	20.0	45.5	30.0
Chwarterl meincnod	4	4	3	4
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	25	25	22	30
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	100.0	92.0	100.0	100.0
Chwarterl meincnod	1	3	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	28.0	*	36.4	23.3
Chwarterl meincnod	3	*	3	4

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarterl meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarterl meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrraedd yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarterl meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrraedd yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	120	118 98%	2 2%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	119	118 99%	1 1%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	120	119 99%	1 1%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	120	117 98%	3 2%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	120	118 98%	2 2%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	117	117 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	120	119 99%	1 1%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	120	117 98%	3 2%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	118	104 88%	14 12%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	120	119 99%	1 1%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	117	101 86%	16 14%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	118	99 84%	19 16%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	18	11 61%	6 33%	1 6%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		64%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	18	16 89%	2 11%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	25%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	18	14 78%	4 22%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		73%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	18	10 56%	8 44%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	17	6 35%	10 59%	1 6%	0 0%	1	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		48%	47%	4%	1%		
Teaching is good.	17	9 53%	8 47%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		62%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	17	9 53%	8 47%	0 0%	0 0%	1	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		65%	33%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	14	5 36%	8 57%	1 7%	0 0%	4	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		50%	42%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	16	11 69%	5 31%	0 0%	0 0%	2	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		61%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	18	5 28%	10 56%	2 11%	1 6%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		61%	37%	2%	0%		
My child is safe at school.	18	10 56%	7 39%	1 6%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		67%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	12	7 58%	5 42%	0 0%	0 0%	4	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		56%	38%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	18	3 17%	13 72%	2 11%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		50%	40%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	18	11 61%	5 28%	2 11%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		63%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	16	7 44%	7 44%	2 12%	0 0%	2	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		49%	41%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	18	10 56%	8 44%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		58%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	13	5 38%	7 54%	1 8%	0 0%	4	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		53%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	17	6 35%	8 47%	3 18%	0 0%	1	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		55%	38%	5%	1%		
The school is well run.	17	8 47%	8 47%	1 6%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		62%	33%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Jonathan Cooper	Arolygydd Cofnodol
Kevin Davies	Arolygydd Tîm
Michaela Leyshon	Arolygydd Lleyg
Angharad Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Aled Davies	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.